

ENWAU LLEOEDD CAERDYDD A'R CYFFINIAU

Llodre

Wrth drafod enw Llantriddyd yn rhifyn diwethaf y *Gadwyn* nodais, yn sgil y ffurf fer ei hoedl *Llwynrhiddyd*, enw'r plwyf cyfagos *Llwyneliddon*, neu *St Lythans* y di-Gymraeg, ond heb gael cyfle i nodi'r ffurf gynnar a geir yn Llyfr Llandaf ar fan o fewn ffiniau'r plwyf hwnnw, sef *hen lotre elidon*. Yn ein horgraff ni heddiw y ffurf fyddai *Hen Lodre Eliddon*, ac er ei bod yn dra phosibl mai'r un enw personol, *Eliddon*, a geir yma ac yn enw'r plwyf, mwy amwys yw arwyddocâd ac ystyr yr elfen *llodre*. Ni chofnodir yr enw hwn mewn unrhyw ffynhonnell arall, hyd y gwn, ond y mae rhai enghreifftiau o'r elfen *llodre* i'w cael mewn nifer o enwau ar hyd a lled y wlad.

Ar un olwg y mae *llodre* yn edrych fel ffurf lafar *llodrau*, lluosog y gair *llawdr* 'trowsus, clos', ond sydd yn aml yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr unigol. Fodd bynnag, prin y byddai neb yn disgwyl gweld y gair hwn fel elfen mewn enwau lleoedd, yn enwedig os oes i'r enwau hynny gysylltiad eglwysig o ryw fath, fel y mae'n dra thebyg. Gair gwahanol, felly, yw'r *llodre* sydd gennym ni dan sylw ac y mae yn hen iawn fel elfen mewn enwau lleoedd, ond lle y mae'n digwydd mewn rhai enghreifftiau nid yw'n syndod fod ymdrechion wedi cael eu gwneud i newid gwedd yr enwau hynny er mwyn parchusrwydd. Hyn, mae'n bur debyg, a ddigwyddodd yn achos *Llandre*, ger Aberystwyth, dan ddylanwad y gair *llan*, a hefyd yn enw'r ffermdy *Llandremôr*, ger Pontarddulais, sef *Lladremor* 1569, *Llodremor* 1584 lle ceir *llodre* gyda'r hen enw personol *Môr* ac a drowyd i'w ffurf bresennol erbyn 1764.

Yng Nghwm Llynfi, ger Llangynwyd, y mae *Llety Brongu* lle ceir *llety* yn cymryd lle *llodre* gan mai *Llodre Brangig* a geir yn 1548, *Llodre Brangye* 1570, a phrawf o'i hynafiaeth yw fod R. J. Thomas yn debyg o fod yn llygad ei le wrth gynnig mai'r enw personol sy'n ffurfio ail elfen yr enw hwn yw'r *Brancu(f)* a geir ar garreg o gyffiniau Baglan sy'n dyddio o ddiwedd y nawfed i'r ddegfed ganrif

Ni newidiwyd gwedd yr elfen ymhob enghraifft o'i bodolaeth mewn enwau lleoedd wrth gwrs. Yn ardal Sgeti yn Abertawe yr oedd lle o'r enw *Lodre Bryth* 1583, *Llodrybrith* 1764, lle ceir yr ansoddair *brith* 'brychlyd' fel ail elfen. Ni chlywir yr enw hwn yn gyffredin bellach, i mi wybod. Yna, fe gofnodir yr enw *Gelli Lotre*, *Gelli Lotra* yn Llangeinwyr yn 1833, ac fe geir enwau sy'n cynnwys yr elfen ym mhlwyfi Llangennech a Phen-bre yn Sir Gaerfyrddin. Cofnodir *Llodre Iago* hefyd yn 1329-30 ger Llandeilo yn un o siartrau Talylychau.

Fe ddichon mai ffurf ansoddeiriol gysylltiedig sydd yn enw'r ffermdy *Llotrog* ger Penclawdd ym Mhenrhyn Gŵyr, *Laydrogg* 1688, *Tir lledrog* 1713, *Llodrog* 1748-79, gan fod hwn heb fod ymhell o eglwys hynafol Llanenewyr (*Llanyrnewydd* ar y map) a ddaeth yn gapel anwes i Lanrhidian nes tadogi statws bywoliaeth arno erbyn 1924. Ar fap Thomas Kitchin, 1750, gelwir

lleoliad Llotrog yn *The Sanctuary* ac mewn arolwg o Benrhyn Gŵyr yn 1764 yr hyn a geir yw *Llodrog alias St Wall*, ond mewn arolwg cynharach yn 1641 y ffurf Gymraeg, *Seintwar*. Y mae'n bur amlwg fod *seintwar* (a fenthyciwyd o'r Saesneg Canol *seintuarie*) wedi mynd yn *seintwal* ar lafar (a dyna *S(ain)t Wall* ysgrifwr arolwg 1764) yn unol â'r duedd i gyfnewid *-r* ac *-l* ar ddiwedd benthyciadau o'r Saesneg (fel *corner/cornel, dresser/dresal, razor/rasal* etc.)

Beth yw ystyr *llo dre*? Cytunir ei fod yn air cytras â'r Wyddeleg *láthrach* 'safle ty neu eglwys neu adeilad arall: mangre' yn ôl Syr Ifor Williams, ac y mae cysylltiad eglwysig pur gynnar, yn arbennig â hen enwau personol a all fod yn enwau 'seintiau' hynafol na wyddom ddim amdanynt, yn amlwg ynglŷn â rhai o'r lleoedd y ceir ef fel rhan o'u henwau. Y mae hyn yn wir am *Hen Lodre Eliddon* hefyd. Ai cyfeiriad sydd yma at adeilad sy'n rhagflaenu eglwys y plwyf? Ni ellir dweud llawer mwy na hynny ar hyn o bryd.

Gwynedd Pierce

ENWAU LLEOEDD CAERDYDD A'R CYFFINIAU

Cwm Talwg

Y mae'r rhan fwyaf ohonom yn gyfarwydd â thref y Barri. Ar ei chyrion gogleddol, i'r dde o'r ffordd a elwir yn *Pontypridd Road* (y B4266) fel yr awn allan o'r Barri, fe dyfodd ardal drefol o tua chwe degau'r ganrif ddiwethaf ymlaen sy'n dwyn yr enw *Cwm Talwg*. Cafodd yr enw oherwydd bod nant fechan o'r enw *Nant Talwg* ar y mapiau modern yn rhedeg gynt o ardal y *Buttrills* ym mhlwyf Merthyr Dyfan trwy'r ardal drefol hon, ar draws y ffordd tua'r fan lle mae'n disgyn i bant amlwg, ac ymlaen i lawr dyffryn agored coediog i barc hyfryd Porth Ceri ar ei ffordd i Fôr Hafren. Cododd problem i wyr y mapiau, mae'n amlwg, wrth ddangos cwrs y nant islaw'r ffordd oherwydd er mai dal i ddangos enw'r nant fel *Nant Talwg* a wneir, ac un heol gyfochrog yn *Nant Talwg Way*, parheir i ddangos enw'r dyffryn y rhed trwyddo fel *Cwm Cidi*, ac nid *Cwm Talwg*.

Y ffaith syml yw mai o'r ddwy ffurf *Cwm Cidi* yw'r un ag unrhyw hynafiaeth yn perthyn iddi. Hyd y gwn, nid oes unrhyw gyfeiriad dogfennol cynharach na mapiau dechrau'r ganrif ddiwethaf at *Talwg* fel enw'r nant, na *Cwm Talwg* wrth gwrs. Ymddengys mai enw'r nant oedd *Cidi*, a gallwn dderbyn barn R. J. Thomas ei fod yn hen enw personol fel enw nant. Mae'r hen hynafiaethydd John Leland yn sôn am *Kiddey mouth* 1536-9, ond ymhell cyn hynny yr oedd yn y cwm bentrefan o'r enw *Cwm Cidi* a gymerodd enw'r cwm ers y drydedd ganrif ar ddeg o leiaf, gydag eglwys fechan a oedd yn ganolfan plwyf y ceir ei enw mewn trethiannau cynnar, *Cwmkedi* 1254 a *Cumkydy* c.1348. Diflannodd yr eglwys cyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg ar ôl uno'r plwyf â phlwyf Porth

Ceri ond fe barhaodd prif ffermdy'r ardal, a oedd yn dal i arddel enw'r cwm, i sefyll ar y tir isel lle datblygwyd Parc Gwledig Porth Ceri nes ei dymchwel tua chanol y ganrif ddiwethaf. (Nid y *Cwmcidy Farm* a ddangosir ar y map heddiw oedd y fferm hon ac nid oes unrhyw gysylltiad rhyngddi chwaith â gwesty'r *Toby Carvery*, ger y ffordd i faes awyr Caerdydd, a ddefnyddiai'r enw hyd yn ddiweddar - *Green Farm* oedd hwnnw).

Sut mae esbonio'r amryfusedd rhwng *Cwm Talwg* a *Cwm Cidi*? Ar ei ffordd i lawr o'i tharddiad yr oedd nant *Cidi* yn cael ei chroesi gan ragflaenydd y *Pontypridd Road* presennol nad oedd fawr mwy na llwybr neu wtra mewn oes gynharach. Llifai'r dwr trwy ryd ar y ffordd yn y fan honno, ac mewn arolwg a wnaed yn 1622 yr enw a roir ar y ffordd yw *Reedhollocke Lane* neu *Reedhollocke Waye*, ac fe geir rhagor o dystiolaeth i'r ffurf hon ym mhapurau stadau Ffon-mon, Gwenfô a'r Mount, Dinas Powys: *Reedhallock Lane* 1762, *The Reddhallock Way* 1763, *Retalog Lane* 1778. Hefyd, enw'r cae ger y ffordd lle'r oedd pompren i groesi'r nant yn ddiweddarach oedd *Retailock* 1783, *Rhyd Hay Lock* dechr.19ganr.

Pobl ddi-Gymraeg, bid siŵr, oedd ysgrifwyr y dogfennau a'r mapiau hyn, a'u hymgais hwy yw'r ffurfiau a nodir uchod i gynrychioli'r enw yn ôl ei sain ac yn eu horgraff hwy. Er hynny, nid oes angen llawer o ddychymyg, yn enwedig o sylwi ar ffurf 1778 yn arbennig, i weld mai *rhyd + halog* ' lleidiog, brwnt, budr' yw'r elfennau Cymraeg y ceisir eu cynrychioli, a hefyd bod *Retalog* yn sefyll am y ffurf Gymraeg *Rhyd halog*, lle mae *-d + h-* yn caledu i *-t-* i roi *Rhytalog* ar lafar, fel mewn nifer pur sylweddol o enghreifftiau tebyg trwy Gymru gyfan. Cyfeiriad sydd yma, wrth gwrs, at ddŵr y nant yn cael ei halogi gan drafnidiaeth brysur - olwyni ceirt, carnau ceffylau etc. - yn y rhyd. Dichon mai cymar i hwn yw *Retallack* mewn mwy nag un lle yng Nghernyw a cheir yr elfen Hen Saesneg *fūl*, Saesneg Diweddar *foul*, mewn enwau fel *Fulford*, *Fulwell*, *Fullabrook* etc. yn Lloegr. Yn yr achos hwn, yr oedd y rhyd yn nodwedd ddigon amlwg i roi ei henw i'r ffordd.

Fe ymddengys, felly, mai'r hyn a ddigwyddodd yn gymharol ddiweddar, tua dechrau'r ganrif ddiwethaf yn ôl pob tebyg, oedd gwneud camgymeriad dybryd a chredu mai enw rhyd ar nant o'r enw *Talog*, neu *Talwg* (lle ceir amrywiad llafar ar y terfyniad, *-og/-wg*) oedd *Rhytalog*, a esgorodd ar y ffurf *Cwm Talwg*. Rhan uchaf *Cwm Cidi* yw *Cwm Talwg*, ond ni chefais dderbyniad rhy wresog gan rai o ddinasyddion y Barri wrth geisio eu darbwylllo sut y daeth yr enw hwnnw i fodolaeth!

Gwynedd Pierce

Beaupre : Y Bewpyr

Yma, yn *Old Beaupre* fel y gelwir y lle ym mhlwyf Sant Hilari ym Mro Morgannwg, a rhyw filltir a hanner i'r de-orllewin o'r pentref, y saif adfeilion maenordy teulu Bassett a fu'n gysylltiedig â'r ardal o hanner cyntaf y drydedd

ganrif ar ddeg ymlaen. Cofnodir eu presenoldeb yn 1262. Yn yr unfed ganrif ar bymtheg gwnaed ychwanegiadau a chyfnewidiadau i'r hen adeiladau gan greu plasty sylweddol gyda'i borth mewnol nodedig erbyn 1586.

Yn ei ddiwyg Ffrengig, *Beaupre*, fe gam-esboniwyd yr enw yn gyson fel pe bai'n cynnwys yr elfennau *beau* 'prydfarth, hyfryd' a *pré* 'maes, dôl', a chanlyniad cais gan gyfaill a welodd hyn mewn cyfrol ddarluniadol a gyhoeddwyd yn gymharol ddiweddar yw'r nodyn hwn lle ceisir dangos mai os cywir yw'r farn hon am ystyr yr elfen gyntaf, nid felly'r ail.

Bewerpere 1376 yw'r ffurf gynharaf o'r enw sydd gennym ar glawr ac fe'i dilynir gan liaws o ffurfiau fel *Beaupier* 1511, *Bewpere* 1526, 1587, *Bowper* 1527, *Bewper* 1534 o ffynonellau Cymraeg a Saesneg, y mwyafrif o'r ffurfiau Cymraeg gyda'r fannod, *Y Bewper* 1485-1515, *Y Bewpur* 1540, *o'r Bewpyr* c.1566 etc. a honno yn Saesneg weithiau, *The Bewpire* 1596. Nid oes gennyf dystiolaeth o'r ffurf *Beaupre* hyd ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg, 1511, ac nid oes dim i awgrymu y dylid ynganu yr *-e* ar y diwedd yn y modd y gwneir mewn ffurfiau diweddar fel pe bai angen marc yr acen ddirchafedig *-é* i arwyddo hynny - a dyna le, fe ddichon, i amau presenoldeb y gair *pré*.

Yn y ffurf gynharaf, *Bewerpere*, y mae'r allwedd. Ei sail yw'r ymadrodd, neu enw Ffrengig pur gyffredin, *beau repaire* 'encilfa hyfryd'. Y mae'r gair Saesneg cysylltiol *repair* yn yr un ystyr 'cyrchfan, encilfa' wedi mynd yn derm hynafaid bellach nas defnyddir yn amlach na pheidio. O'i ddefnyddio'n gyson ar lafar cafodd dwy lythyren gyntaf y gair Ffrangeg *repaire* yn yr enw sydd dan sylw eu trawsosod, sef *re-* > *-er*, a chyda *beau* ar y dechrau yn cael triniaeth debyg i'r un a gafodd yn yr enw *Beaumaris* i roi *Bew-* o flaen amrywiaeth yn y ffordd y sillafwyd ail elfen y gair *repaire*, cafwyd *Bew(er)pere*. Y canlyniad oedd i'r sillaf *-er* fynd yn ddiacen ar lafar a chael ei cholli yng nghwrs amser i roi *Bewper*, *Bewpyr* etc. Amhosibl fuasai datblygiad y ffurf honno o wreiddyn fel *beau + pré*.

Ni ellir hawlio mai dan ddylanwad y Gymraeg yn llwyr y digwyddodd y cyfnewidiadau hyn ac eithrio y ffurf *Bewpyr*, efallai, gan fod yr enw yn dra chyffredin yn Lloegr. Ceir *Beaupre* yn swydd Huntingdon, *Bewper* yn Surrey a Chaint, *Beaurepaire* wedi ei ffosileiddio yn swydd Hampshire, a'r un enw, yn wreiddiol, yw *Belper* yn swydd Derby.

Gwynedd Pierce

ENWAU LLEOEDD CAERDYDD A'R CYFFINIAU

Westra : Southra : Soudrey

Ar gyrion comin Dinas Powys fe saif dau ffermdy sylweddol sy'n dwyn yr enwau Westra a Southra. Enwau Saesneg, wrth gwrs, gyda'r elfen gyntaf yn y naill a'r llall, west a south, yn dangos cyfeiriad eu lleoliad mewn perthynas â'r comin. Cyffredin i'r ddau, ar y llaw arall, yw'r ail elfen *-ra*, a'r tebyg yw mai

ffurf lafar gywasgedig ydyw ar y gair Saesneg Canol rewe a ddaw o wreiddyn Hen Saesneg sy'n golygu 'rhes'. Y mae'r ffurf ddiweddar row, gydag amrywiad llafarog pellach, yn ffurf arall arno. Ceir Southrewe a Westrewe yn 1455, Sowthrewe yn 1489 a Westrew 1558-1603 etc.

Credais unwaith mai cyfeiriad sydd yma at res neu resi o goed a blannwyd i dorri min y gwynt ar ochrau deheuol a gorllewinol y comin gan i mi dderbyn tystiolaeth un hen wraig i'r perwyl hwnnw. Hefyd, y mae Southrow yn yr ystyr honno i'w gael ym mhlwyf Castellmartin yn Sir Benfro. Bellach, fodd bynnag, y mae lle i ystyried posibilrwydd arall gan y cofnodir Northrewe 1455 yng nghyffiniau'r comin, ond nid oes sicrwydd o unrhyw fath ynglŷn â lleoliad hwnnw ac nid yw wedi goroesi fel y ddau arall.

Y mae'n bur amlwg fod y Saesneg Canol rewe, fel gyda row mewn Saesneg Diweddar, hefyd yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i gyfeirio at res o dai, 'stryd' mewn gwirionedd. Yr oedd unwaith fwy nag un Middle Row yng Nghaerdydd ac eraill fel Bakers Row (sy'n dal mewn bodolaeth), Cwrt Colman Row etc. a'r hyn sy'n ddiddorol yw y cofnodir Southrewe c.1600 fel enw ar fan y tu allan i borth deheuol hen fwrdeistref Caerdydd lle'r oedd stryd gynnar, Shipman Street (Schipmanstrete 1321) 'stryd y llongwr', yn arwain allan o'r dref. Erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg yr oedd yr ardal honno wedi cynyddu digon mewn maint i fod yn faestref fechan a âi dan yr enw Soudrey 1550, Sowdrey 1562 etc. ac a gamesboniwyd gan nifer o haneswyr fel ffurf sy'n dangos dylanwad Llychlynnaid gyda'r terfyniad -ey 'ynys', fel yn Bardsey, Ramsey, Anglesey a Swansea (ffurf ddiweddarach yw Swansea).

Er nad yw'n hawdd, os yn wir yn bosibl, efallai, i esbonio datblygiad y ffurf Soudrey, ac eithrio mai amrywiad llafar o ryw fath ydyw, gellir bod yn weddol sicr mai camgymeriad yw tybio mai tras Sgandinafaidd sydd iddi gan mai Soudra yw'r ffurf ar yr enw sy'n cael ei gofnodi yn 1723. Gellir cymharu'r ffurf honno â Southra, Dinas Powys, am ei bod yn arddangos un o nodweddion tafodieithol ymfudwyr Seisnig o dde-orllewin Lloegr i'r ardal dros y blynyddoedd, sef cyfnewid -thr- am -dr- yn yr un modd ag y cafwyd Drope am Thrope (o Thorpe) ym mhlwyf cyfagos Sain Siorys (Y Gadwyn, Ebrill, 2007). Yn ffodus, y mae gennym dystiolaeth dogfen a sgrifennwyd yn 1616 sy'n cyfeirio at ground called the Rowe in Soudrie, a hynny'n awgrymu nid yn unig fod row yn derm a ddefnyddid yn y gymdogaeth honno ond ei fod hefyd yn ategu'r gred mai yn yr ystyr honno y dylid ei ddeall yn yr enw Soudrey.

Lle y mae Westra a Southra yn Ninas Powys yn y cwestiwn, felly, gwell fyddai aros nes bod yr archaeolegwyr, sydd eisoes yn amau presenoldeb hen adeiladwaith dan gomin Dinas Powys, yn sicrach o'u pethau rhag ofn mai at resi o adeiladau coll y cyfeirir yn yr enwau hynny, gan gynnwys Northrewe.

Gwynedd Pierce

ENWAU LLEOEDD CAERDYDD A'R CYFFINIAU

Radyr Chain

Dyma'r ffurf a welir gan amlaf ar enw'r ardal o amgylch croesffordd (cylchfan bellach) ar y ffordd A4119 a red o Gaerdydd i Lantrisant er mai *Radur*, wrth gwrs, yw sillafiad cywir enw'r pentref adnabyddus. Saif y pentref poblog hwnnw er hynny gryn filltir a hanner, onid mwy, oddi wrth y groesffordd, ac y mae hynny yn ein hatgoffa mai nid cyfeirio at y pentref presennol y mae'r elfen gyntaf yn *Radyr Chain* ond at hen bentref gwreiddiol Radur a safai yn is i lawr i gyfeiriad glannau afon Taf, i'r gogledd o'r groesffordd a ger y ffordd gul sy'n a redai o'r groesffordd i'r cyfeiriad hwnnw. Yn yr ardal honno y tyfodd y *Danescourt* gwasgaredig presennol. Saif hen eglwys y plwyf yno o hyd, a'r Cwrt (tafarn erbyn hyn), ac fe ddarganfuwyd olion nifer o hen dai yn y cyffiniau - gweddillion yr hen bentref canoloesol.

Pa fodd bynnag, y mae'r enw *Radyr Chain* wedi achosi cryn benbleth dros y blynyddoedd oherwydd y methiant i gysylltu'r gair Saesneg *chain* 'cadwyn, tsiaen' ag enw'r hen bentref, ond fe drowyd y benbleth yn gaffaeliad gan un garfan o wŷr busnes, sef gwerthwyr tir a thai. Gwelais aml gyfeiriad at dai ar werth yn yr hyn a elwid yn *Radyr Cheyne* yn yr hysbysebion. Ymdrech yw hynny i dadogi arnynt rinwedd neu urddas Seisnigaidd, gan fod y ffurf *cheyne* (yn gywirach, *chine*) yn elfen mewn enwau ffasiynol crand ar arfordir deheuol Lloegr, mewn lleoedd fel Bournemouth a'i debyg. Wrth gwrs, rhaid cydnabod fod i *cheyne* neu *chine* ystyr benodol yn y manau hynny. Daw o'r Hen Saesneg *cinu* 'cwm cyfyng, glyn', ond yn sicr ddigon nid hwnnw sydd yma. Yn hytrach, yr hyn a geir, wedi'r cwbl, yw y gair Saesneg cyffredin *chain*.

Rhaid cofio mai hen ffordd dyrpeg oedd y briffordd rhwng Caerdydd a Lantrisant. Dilynai yn fras rediad yr A4119 bresennol a thrwy'r groesffordd sydd gennym dan sylw. Byddai'r cwmnïau a oedd yn berchenogion y ffyrdd, yn ychwanegol at y tollbyrth a osodwyd arnynt mewn llawer man (fel honno ar gyrion Llandaf, ar y gongl lle mae'r *Bridge Street* presennol yn rhedeg i lawr i Ystum Taf ger tafarn yr *Heathcock*), hefyd yn gosod rhwystrau ar draws rhai o'r mân ffyrdd a redai oddi ar y priffyrdd, yn enwedig os byddent yn debyg o fod yn cael eu defnyddio'n fynych. Hyn oedd ffawd yr hen lôn gul o'r groesffordd heibio i eglwys fechan Radur, a'r Cwrt, tuag afon Taf lle'r oedd rhyd gyfleus i'w chroesi, a heb fod nepell o hen Iard Lo Llandaf (yn fras, oddeutu safle Ysgol Glantaf heddiw) a oedd yn gyrchfan rhan helaeth o'r drafnidiaeth ar y ffordd. Gosodwyd cadwyn, y dull mwyaf cyffredin, fel rhwystr ar draws ei cheg tua'r fan lle gadawai y briffordd.

Ar ôl helynt Rebecca ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg pan oedd dryllio tollbyrth a rhwystrau eraill ar y ffyrdd tyrpeg yn un o brif weithgareddau'r 'merched', apwyntiwyd Comisiwn i bwysu a mesur achosion yr helynt yn 1844, ac mewn ateb i gwestiwn a ofynnwyd iddo dywedodd un tyst –

It is the Radyr Chain: it is to prevent people going towards Llandaf coal-yard

principally, turning off the turn-pike road into the parish road without

paying.

Prin y gellid gosod y peth yn fwy cryno. Yr oedd y gadwyn yn ddigon adnabyddus i fod yn gyfrifol am roi ei henw i'r groesffordd ar fap cyntaf modfedd-i'r-filtir Swyddfa'r Ordnans yn 1833.

Gwynedd Pierce